adnabod awdur

# SIÂN LEWIS

Pan ôn i'n fach, rôn i'n meddwl bod pawb yn sgrifennu. Athrawon yng Ngheredigion oedd fy rhieni a bob hyn a hyn fe fydden nhw a'u ffrindiau'n diflannu i ryw le hudolus (ches i erioed fynd yno!) o'r enw Cilgwyn. Yno cynhelid cyrsiau i athrawon, cyrsiau a ysbrydolwyd gan Alun R Edwards, llyfrgellydd y sir, i annog pobl i sgrifennu yn Gymraeg. O ganlyniad roedd 'na fwrlwm o frwdfrydedd a phawb, bron iawn, oedd yn dod i'n tŷ ni yn sôn am sgrifennu, barddoni, dramâu, actio ac ati.

Pan fyddai'r teipiadur yn segur, fe fyddwn inne'n rhoi cynnig ar deipio stori ar bapur Toytown o Woolworths fel arfer. Papur sgrifennu bach o ran maint oedd hwnnw a doedd dim angen llawer o eiriau i lanw tudalen. Fy nghamgymeriad mawr oedd bwrw ati o'r cychwyn cyntaf i sgrifennu storïau cyfres. Byddwn yn teipio'r bennod gyntaf ac yn ei phostio i Mam-gu a Tad-cu. Os oedden nhw'n lwcus, fe gaen nhw ail bennod. Ond erbyn y drydedd rôn i wedi hen syrffedu ac wedi symud 'mlaen i stori arall.

Wedi'r cyfnod cynnar hwn, fe rois i'r gorau i sgrifennu. Cael gwahoddiad i gyfrannu i gylchgronau'r Urdd, bron ugain mlynedd yn ddiweddarach, wnaeth i fi ailgychwyn o ddifri. Heddiw mi fydda i'n sgrifennu ac ail-sgrifennu fy storïau sawl gwaith cyn eu teipio ar y prosesydd geiriau a'u cyflwyno i weddill y teulu i'w darllen a'u beirniadu. Rwy wedi dysgu bod rhaid i awdur ddyfalbarhau - a chael diwedd i bob stori.

Siân Lewis